# Funky Footsteps After School and Holiday Club at Tywyn school, Neath Port Talbot

## *Supporting the finances of a new childcare business and families who will use the service.*

In response to local demand, we were keen to expand into After School Club and Holiday Club at Tywyn Primary School in Neath Port Talbot, West Wales, replacing a well utilised club that unfortunately had to close during lockdown.

But first we needed funding to pay staff time whilst the club became establish and numbers increased. When we contacted Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs, our Childcare Business Development Officer Nia was firstly able to point us in the direction of suitable funding, which the charity had accessed from the Moondance Foundation to support clubs such as ours, and help us complete the application. She took us through completing a cashflow forecast, which predicted our income and expenditure to identify our funding needs to establish the new childcare, ensure that it was going to be sustainable and consider any cashflow issues and budgets.

She was then able to look over the application with us and highlight where we could make improvements and gave us points to consider.

Our Childcare Business Development Officer also shared information on how to apply for Childcare Offer and Tax-Free Childcare which to support parents with fees, which is so important right now, more than ever.

We were delighted when we received news that we were successful with our application and are looking forward to opening our doors to our new club to serve the local community. Without the support of our Childcare Business Development Officer, we would have been quite overwhelmed with the amount of work involved and, without the financial support, we would not have had the flexibility to pay for staff, whilst building our profile with the community to generate interest, which is vital.

*Funky Footsteps*

clybiauplantcymru.org Telephone no | Rhif Ffon: 029 2074 1000
Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs, Bridge House | Ty'r Bont, Station Road | Ffordd yr Orsaf, Llanishen | Llanisien, Cardiff | Caerdydd, CF14 5UW
Registered Charity/Elusen Gofrestredig: 1093260 | Company limited by guarantee/Cwmni Cyfyngedig trwy warant: 4296436

Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs

CRONFA GYMUNEDOL COMMUNITY FUND

## Clwb Ôl-ysgol a Chlwb Gwyliau yn ysgol Tywyn, Castell-nedd Port Talbot

***Cefnogi cyllid busnes gofal plant a theuluoedd newydd a fydd yn defnyddio'r gwasanaeth.***

Mewn ymateb i alw lleol, roeddem yn awyddus i ehangu i fod yn Glwb Ôl-ysgol a Chlwb Gwyliau yn Ysgol Gynradd Tywyn yng Nghastell-nedd Port Talbot, Gorllewin Cymru, gan gymryd lle clwb y gwnaed defnydd da ohono ond y bu'n rhaid iddo gau yn anffodus yn ystod y cyfnod clo.

Yn gyntaf roedd angen cyllid arnom i dalu amser i staff tra bod y clwb yn sefydlu ac yn cynyddu'r niferoedd. Pan wnaethom ni gysylltu â Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs, roedd ein Swyddog Datblygu Busnes Gofal Plant, Nia, yn gallu'n cyfeirio yn gyntaf i gyfeiriad cyllid addas yr oedd yr elusen wedi'i chael gan Sefydliad Moondance i gefnogi clybiau fel ein clwb ni, ac yna ein helpu i gwblhau'r cais. Aeth â ni trwy gwblhau rhagolwg llif arian, a oedd yn rhoi rhagamcan o'n hincwm a'n gwariant er mwyn gweld ein hanghenion cyllid o ran sefydlu'r gofal plant newydd, sicrhau ei fod yn mynd i fod yn gynaliadwy ac ystyried unrhyw broblemau llif arian a chyllidebau.

Yna, roedd modd iddi edrych dros y cais gyda ni, tynnu sylw at y mannau lle y gallem wneud gwelliannau a rhoi pwyntiau i ni eu hystyried.

Fe wnaeth ein Swyddog Datblygu Busnes Gofal Plant hefyd rannu gwybodaeth ar sut i wneud cais am y Cynnig Gofal Plant a Gofal Plant Di-dreth sydd ar gyfer cefnogi rhieni â'u ffioedd, sydd mor bwysig yn awr, yn fwy nag erioed.

Roeddem wrth ein bodd pan gawsom newyddion ein bod yn llwyddiannus gyda'n cais ac yn edrych ymlaen at agor ein drysau i'n clwb newydd i wasanaethu'r gymuned leol. Heb gefnogaeth ein Swyddog Datblygu Busnes Gofal Plant, byddem wedi ein llethu'n llwyr â chymaint o waith oedd ynghlwm â hyn, a heb y cymorth ariannol ni fyddem wedi cael yr hyblygrwydd i dalu am staff, tra'n adeiladu ein proffil yn y gymuned i ennyn diddordeb, sydd yn hanfodol.

*Funky Footsteps*